Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Carys Flynn**

**Aberteifi**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddi l heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/06/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus yn y lleoliad hwn. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau ag eraill ac yn dechrau dod yn sensitif iddynt. Mae gan y gwarchodwr plant bolisïau a gweithdrefnau manwl sy'n hyrwyddo llesiant y plant. Mae'r amgylchedd yn un gofalgar ac mae'r gwarchodwr plant yn diwallu anghenion unigol y plant yn llwyddiannus. Gofelir am y plant mewn amgylchedd diogel a glân. Mae llawer o le a digon o gyfleusterau er mwyn annog y plant i chwarae a dysgu. Mae'r teganau a'r offer chwarae yn briodol i oedran y plant ac mewn cyflwr da. Mae'r lleoliad yn groesawgar ac yn gyfeillgar. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol ac yn cydymffurfio â holl reoliadau AGC. Mae datganiad o ddiben clir sy'n rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth. Mae gan y gwarchodwr plant ddisgwyliadau uchel ac mae'n rhannu ei gwerthoedd am ddysgu ac ymddygiad gyda'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn cydweithio'n dda â'r rhieni i roi'r wybodaeth iddynt am y gwasanaeth yn ogystal ag am lesiant a gofal y plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Mae'r plant yn chwarae'n rhydd ac yn dewis eu teganau eu hunain yn annibynnol. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus ac yn gwybod y caiff eu dymuniadau a'u hanghenion eu hystyried. Clywsom y plant yn gofyn am stori a pharchodd y gwarchodwr plant eu dymuniadau. Mae'r plant yn siarad yn agored â'r gwarchodwr plant ac mae'n amlwg bod y plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â hi. Mae'r plant yn fwy na pharod i fynd ati i gael sgwrs frwdfrydig am eu chwarae a'u dysgu.

Mae'r plant yn rhannu eu teimladau'n agored gan eu bod yn cael eu hannog i wneud hynny, ac maent yn gwybod bod y gwarchodwr plant yn ystyried eu hoffterau, eu cas bethau a'u hanghenion. Mae'r plant yn chwarae'n hapus ac yn unigolion bodlon. Clywsom y plant yn rhannu eu teimladau'n agored â'r gwarchodwr plant,*"dwi'n grac!"* . Ymatebodd y gwarchodwr plant gan ofyn pam eu bod yn teimlo'r emosiwn penodol hwnnw,*"o na, pam wyt ti'n grac?".* Mae rhyngweithio da rhwng y gwarchodwr plant a'r plant, ac mae'r plant yn llawn diddordeb a brwdfrydedd. Mae'r plant yn mwynhau gwrando ar ganeuon y mae'r gwarchodwr plant yn canu iddynt ac yn ymuno yn y canu pan fyddant am wneud hynny. Maent yn sgwrsio ac yn parablu'n hapus, yn dibynnu ar eu hoedran. Mae'r plant yn hyderus ac yn gofyn cwestiynau i wella eu dealltwriaeth o'r hyn y maent yn ei ddysgu.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn sensitif i anghenion eraill. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch. Roedd y plant yn sgwrsio â ni ac yn rhannu eu brwdfrydedd dros y teganau roeddent yn chwarae â nhw. Mae'r plant yn chwarae gyda'u ffrindiau mewn ffordd dda, gan gymryd troeon a rhannu gyda'i gilydd. Pan fo anghydfodau, maent yn ymateb i'r gwarchodwr plant yn gyflym. Mae'r plant yn dangos parch tuag at eiddo a phobl ac yn rhan o'r broses o benderfynu ar y rheolau a'u dilyn.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored a gallant ddewis pryd i ymlacio a chael cyfnodau tawel. Cânt sawl cyfle i ddewis eu gweithgareddau chwarae eu hunain a lleisio eu barn ar y tasgau y maent yn eu cwblhau. Maent yn helpu eu hunain i'r teganau o'r storfeydd sy'n hawdd cael gafael arnynt ac sydd ar eu lefel. Gwelsom fod y plant yn mwynhau chwarae rôl rhiant a gofalu am y doliau. Gwelsom fod y plant yn datblygu eu creadigrwydd ac yn archwilio'r ardal chwarae darnau rhydd. Mae'r plant yn mwynhau crwydro o amgylch yr ardal awyr agored, gan archwilio'r ardd fawr, chwarae cuddio a chwythu swigod.

Mae'r plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn dda, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain, er enghraifft golchi eu dwylo'n annibynnol. Cânt gyfleoedd rheolaidd i wneud dewisiadau, gan ddewis pryd roeddent yn barod am eu byrbryd bore a beth roeddent am ei gael o'u bocs cinio.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r gwarchodwr plant yn creu awyrgylch magwrus a gofalgar, ac mae ganddi ddealltwriaeth drylwyr o ran diwallu holl anghenion unigol y plant ac ystyried eu galluoedd. Mae'n hynod ymroddedig ac yn llawn cymhelliant i ddarparu gofal a gweithgareddau addysgol sydd â'r nod o hyrwyddo cyfleoedd dysgu a chwarae'r plant. Er enghraifft, gwelsom y gwarchodwr plant yn helpu'r plant i feithrin eu sgiliau echddygol manwl wrth iddynt geisio ysgrifennu eu henw. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnwys yr amgylchedd naturiol o fewn arferion dyddiol a gweithgareddau'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant. Mae'n cynllunio'n dda ac yn ymwybodol o gamau nesaf y plant, ac yn eu monitro a'u cofnodi ar siartiau datblygu unigol ar gyfer pob plentyn, pa sgiliau a gyflawnwyd a'r rheini sy'n dod i'r amlwg. Gwelsom ei bod yn defnyddio'r wybodaeth am gynnydd datblygiadol y plant i gefnogi'r gwaith o gynllunio ar gyfer y dyfodol a'i bod yn teilwra'r gweithgareddau i ddiwallu anghenion unigol y plant.

Mae gan y gwarchodwr plant bolisïau a gweithdrefnau manwl ar waith, ac mae'n eu deall, er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant personol y plant. Mae ganddi asesiadau risg manwl ac yn mynd ati'n rhagweithiol i reoli risgiau. Mae'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelu ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau'r hyfforddiant ar-lein ar atal radicaleiddio yn llwyddiannus. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi ystyriaeth dda i iechyd a diogelwch y plant, yn storio meddyginiaeth yn ddiogel, yn cadw cofnodion clir ac yn ystyried gofynion meddygol ac alergeddau'r plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gan y gwarchodwr plant weithdrefnau glanhau trylwyr ac arferion hylendid rhagorol ar waith. Er enghraifft, mae'n glanhau arwynebau'n rheolaidd gan ddefnyddio chwistrell gwrthfacterol. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i olchi a sychu eu dwylo gan ddefnyddio dŵr cynnes a sebon, a chadachau unigol. Mae'n golchi ei dwylo'n drylwyr cyn ac ar ôl newid cewynnau ac yn glanhau'r arwynebau lle y caiff cewynnau eu newid cyn ac ar ôl iddynt gael eu defnyddio. Mae'r gwarchodwr plant yn gwisgo ffedog a menig wrth newid cewynnau.

Mae trafodaethau â'r gwarchodwr plant yn dangos ei bod yn adnabod y plant yn dda iawn. Mae'r gwarchodwr plant yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad. Mae'n dangos esiampl dda ac yn hyrwyddo cwrteisi. Clywsom sawl canmoliaeth a chlod ar gyfer ymddygiad cadarnhaol yn ystod ein hymweliad. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r plant eu dilyn ac yn eu hannog i gymryd perchnogaeth dros bopeth y maent yn ei wneud. Mae'r rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant a'r plant yn gynnes ac yn garedig “*sut wyt ti heddi?”* Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol ac adeiladol. Mae'n atgoffa'r plant i fod yn garedig ac yn ofalus. Pan fo'r plant yn anghytuno â'i gilydd, mae'n defnyddio dull gweithredu teg a chyson ac yn esbonio'n glir beth sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol. Roedd y rhyngweithio rhwng y gwarchodwr plant a'r plant yn gadarnhaol iawn, yn llawn

cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae’r gwarchodwr plant yn gosod esiampl dda, gan hyrwyddo a datblygu’r Gymraeg a diwylliant Cymru.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân, a'i fod mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae'r safle'n cael ei gadw dan glo a'i ddiogelu â giât. Wrth gyrraedd y safle, roeddem yn gallu diheintio ein dwylo gan ddefnyddio'r peiriant awtomatig. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw'r drws ffrynt ar glo ac yn disgwyl i ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd a gadael y safle. Mae'r safle yn groesawgar, yn gynnes ac yn hygyrch i bawb. Mae'r ystafell chwarae yn fawr ac yn agored, a chanddi naws gartrefol. Mae wedi'i haddurno â gwaith y plant, gan roi ymdeimlad hyfryd o berchnogaeth i'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau risg tân yn effeithiol ac yn fanwl, ac yn eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'n goruchwylio'r plant yn dda ac yn deall y gwahaniaeth rhwng risg dderbyniol ac annerbyniol ar gyfer grŵp oedran y plant y mae'n gofalu amdanynt. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn cofnodi'r amser y mae'n ei gymryd i'r plant adael y safle. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi mesurau diogelu Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant ac arferion rheoli heintiau ar waith yn llawn er mwyn lleihau'r risg i iechyd a diogelwch y plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio'r ardal chwarae yn yr awyr agored mor aml â phosibl. Gwelsom y plant yn mwynhau crwydro ar eu pen eu hunain o amgylch yr ardal awyr agored a oedd wedi'i diogelu â giât. Mae gan y gwarchodwr plant amrywiaeth eang o adnoddau yn yr awyr agored er mwyn gwella gwybodaeth a datblygiad y plant, gan gynnwys palwyr, llithren, siglen, cegin fwd a cheir reidio mawr. Mae'r plant yn tyfu llysiau yn yr ardd lysiau a gallant fynd â'u cynnyrch adref. Dan do, mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod amrywiaeth eang o deganau a chyfarpar chwarae o ansawdd da ar gael i’r plant, sy'n addas ar gyfer eu hanghenion unigol. Mae cynllun yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant. Caiff teganau ac adnoddau eu storio mewn bocsys storio priodol ar lefel isel ar silffoedd agored neu mewn hambyrddau. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn ddeniadol, a'i fod yn llawn gweithgareddau diddorol, cyfarpar chwarae a phosteri lliwgar. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio darnau rhydd er mwyn annog chwilfrydedd; mae'r rhain yn cynnwys deunyddiau naturiol megis pren, pasta, mes, caeadau poteli a riliau cotwm. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod amrywiaeth eang o lyfrau a theganau ar gael i’r plant sy'n addas i’w hoedran a’u cam datblygu ac yn adlewyrchu delweddau cadarnhaol o amrywiaeth; megis jigsos, blociau adeiladu ac adnoddau crefft.

## Arwain a Rheoli

Caiff y gwasanaeth ei reoli'n eithriadol o dda ac mae pob polisi a gweithdrefn yn gyfredol. Mae'r gwarchodwr plant yn gymwysedig iawn. Mae'r gwaith cynllunio yn dda ac yn ystyrlon, gan gefnogi canlyniadau i'r plant. Mae'n darparu gwasanaeth lle mae'r plant wrth wraidd pob penderfyniad ac mae eu llesiant yn hollbwysig. Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac mae'n rhannu ei brwdfrydedd ag eraill. Mae ganddi ddiwylliant cadarnhaol o hunanddatblygiad a datblygiad personol parhaus, ac mae wedi trefnu i ddechrau cwrs achrededig i wella ei gwybodaeth a'i dysgu ymhellach. Mae'r gwarchodwr plant yn arwain drwy esiampl ac yn sicrhau ei bod yn meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am arferion gorau sy'n berthnasol i'r plant yn ei gofal. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn gryf a cheir cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal plant, sy'n ei helpu i ddarparu cymorth da.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gan y gwarchodwr plant ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun ac ymdeimlad clir iawn o ddiben ar gyfer ei gwasanaeth. Drwy drafod â'r gwarchodwr plant, gwelsom ei bod yn agored i syniadau newydd ac yn croesawu'r angen i wella'n barhaus. Mae'n bwrw ati i roi prosesau hunanwerthuso ar waith, ac yn gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr a phartneriaid eraill â diddordeb, ac yn eu rhoi ar waith. Roedd yr adolygiad diwethaf a gynhaliwyd ganddi o ansawdd y gofal yn cynnwys targedau ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben cyfredol a manwl sy'n adlewyrchiad cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'n cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau perthnasol ac, yn aml iawn, mae'n rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig. Mae'r gwarchodwr plant yn meddu ar wybodaeth drylwyr ac yn frwdfrydig am ei chyfrifoldebau. Mae ganddi bolisïau effeithiol ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn adolygu ei pholisïau'n rheolaidd, yn eu rhannu â'r rhieni ac yn eu rhoi ar waith yn drylwyr yn ymarferol. Mae wedi ymgyfarwyddo â'r 'Ddyletswydd Atal'.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldeb i hyrwyddo'r Gymraeg ac mae'n siarad Cymraeg yn rhugl â'r plant y rhan fwyaf o'r amser. Mae'n cyfathrebu'n effeithiol â'r rhieni ac mae'n rhannu gwybodaeth bob dydd drwy anfon lluniau a negeseuon yn electronig. Dywedodd y rhieni sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn wrthym; *"we cannot praise Carys or her setting enough. Our child's learning has in no doubt been advanced by their attendance here. We have often noticed our child reciting and repeating the things that they*

*have learned, and the end of day feedback provided to us by Carys, reflects the learning that our child demonstrates." (ni allwn ganmol Carys na'i lleoliad ddigon. Yn sicr, mae dysgu ein plentyn wedi gwella o ganlyniad i fynychu'r lleoliad. Rydym yn aml wedi sylwi ar ein plentyn yn adrodd ac yn ailadrodd y pethau y mae wedi'u dysgu, ac mae'r adborth diwedd dydd y mae Carys yn ei roi i ni yn adlewyrchu'r dysgu y mae ein plentyn yn ei ddangos).* Drwy drafodaethau niferus â'r rhieni, roedd yn amlwg bod yr ymarfer a welsom yn ystod y broses arolygu yn cael ei adlewyrchu yn y lleoliad bob dydd. Dywedodd rhiant arall wrthym: *"our children love going there and are always so happy on the days that they attend. Carys always plans activities that they enjoy and that have encouraged them to learn, both academic learning and practical skills. She has started teaching them both to play the piano and encouraged them to get involved with the planting and care of the garden at the setting." (mae ein plant wrth eu boddau yn mynd yno ac maent bob amser mor hapus ar y diwrnodau y maent yn mynychu. Mae Carys bob amser yn cynllunio gweithgareddau y maent yn eu mwynhau ac sydd wedi eu hannog i ddysgu, o ran dysgu academaidd ac o ran sgiliau ymarferol. Mae hi wedi dechrau addysgu'r ddau ohonynt i chwarae'r piano ac wedi'u hannog i gyfrannu at waith plannu a gofalu am yr ardd yn y lleoliad).*

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

Dim

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
|---|

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/08/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi